

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Tachwedd 2il, 2017 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Marian Evans (Cadeirydd); William Ifor Hughes; Trefor Wyn Jones; Anwen Jones; Thomas Prys Jones; Angela Williams; Ceri Jones; Tegid Jones; Sion Aled Jones, Sian Angharad Parry; Margaret Griffith (Is gadeirydd), Aled Lloyd Evans a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Naomi Jones ac Aled Davies.
2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Fedi 21ain, 2017 a'r pwyllgor Cynllun Busnes gyfarfu ar Hydref 5ed, 2017.
3. Arwyddo cadarnhad taliadau BACS gan y Cadeirydd. Doedd dim taliadau BACS i'w cadarnhau mis yma.
4. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
5. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.
6. Cyngor Gwynedd.
 1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned, Rhoslan/Ynys a Gordyfiant o Derfynau Preifat. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth bod y mater wedi'i gyfeirio ymlaen i'r Gwasanaeth Trafnidiaeth er ystyried ymarfer pwerau gorfodaeth a chyflwyno rhybudd.
 2. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned, Lôn Las, Llanybi. Derbyniwyd y wybodaeth y bydd Archwiliwr Priffyrdd yr ardal yn ymweld â'r lleoliad ar y cyd ag Archwiliwr Gwaith Stryd y Gwasanaeth Trafnidiaeth.
 3. Addysg, Gwasanaeth Adnoddau; Llywodraethwyr Cymunedol ychwanegol Ysgolion Gwynedd – Cyngor Bro a Thref. Penderfynwyd cysylltu gyda'r swyddog i wneud yn siwr nad yw cyfnodau'r cynrychiolwyr wedi dod i ben. Cadarnhawyd hynny ac mae Mr Marc Barlow, Soar, Llanybi yn fodlon parhau i gynrychioli'r Cyngor yma ar Lywodraethwyr Ysgol Llanybi, y Cynghorydd Margaret Griffith yn parhau i gynrychioli'r Cyngor yma ar Lywodraethwyr Ysgol Chwilog a'r Cynghorydd Naomi Jones yn parhau i gynrychioli'r Cyngor yma ar Lywodraethwyr Ysgol Llanystumdwy.
 4. Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; Cau'r ffordd Dosbarth III gyferbyn â'r eiddo a adwaenir fel Ty'n y Fron, Llanybi, Pwllheli, Gwynedd, gwaharddiad trafndiaeth trwodd dros dro. Derbyniwyd er gwybodaeth.
7. Cefnogaeth Gorfforaethol; cyfle i gydweithio gyda **hunaniaith** ar gynllun i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg gan grwpiau a gweithgareddau cymunedol yn yr ardal. Penderfynwyd estyn gwahoddiad i'r Swyddog Datblybu ddod i gyfarfod y Cyngor, y Clerc i wneud y trefniadau.

7. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy – dau fater gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Marian Evans,

1. Wedi cael cais i drafod symud arosfan bws y pentref sydd ger Maes Llwyd. (Bws yn mynd i Pwllheli). Eisiau ei symud i'r encilfa (lay-by) gyferbyn â'r maes parcio; mwy o le i'r bws aros ac yn nes i Gae'r Ffynnon ble mae mwyafrif y teithwyr yn byw.

Hefyd yn gofyn am loches bws yr ochor yna i'r ffordd.

Penderfynwyd trafod hwn wrth drafod rhif 8 ar y rhaglen waith sef trafod argymhellion y Pwyllgor Cynllun Busnes.

2. Eisiau gwneud rhywbeth ynglân â'r ffrwd sy'n dod i'r lôn ychydig uwch na thro Ty Newydd. Mae'r Clerc wedi bod mewn cysylltiad dros y ffôn gyda'r adran a phenderfynwyd anfon llythyr at Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd i gadarnhau'r sgwrs.

Rhoslan /Ynys

Chwilog

Pencaenewydd/Sardis – llythyr gan drethdalwr ynghylch cyflwr y lloches bws ger Lodge Trallwyn. Trafodwyd cynnwys y llythyr bod y lloches yn flêr ac yn fudur a bod pobl yn defnyddio cefn y lloches fel lle chwech. Roedd y Clerc wedi siarad gyda'r trethdalwr ac wedi anfon llythyr i gydnabod derbyn y llythyr ac wedi dweud bod y llochesi drwy'r gymuned yn cael eu glanhau gan gwmni proffesiynol yn chwarterol. Penderfynwyd cysylltu eto gyda'r trethdalwr i ddweud y bydd y Cyngor yn cadw golwg ar y sefyllfa ac yn gofyn iddo gysylltu eto os bydd yn gweld bod angen.

Llangybi

8. Trafod argymhellion y Pwyllgor Cynllun Busnes.

. Cynlluniau gwariant o rwan hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Trafodwyd y prosiectau posib yma:

a. Cyngor Gwynedd, Toiledau Llanystumdwy. Mae £2,000- wedi cael ei ymrwymo i'r cynllun yma.

b. Offer Cae Chwarae Llangybi. Cafwyd pris o £1,725.60c am wneud y gwaith sydd angen ei wneud. Penderfynwyd argymhell cario ymlaen gyda'r gwaith yma. Derbyniwyd yr argymhelliad a gwneud y gwaith i gyd (gwaith paentio ychwanegol) a chafwyd pris arall yn dilyn cyfarfod y Cyngor o £1,965.60c yn cynnwys TAW.

c. Clirio tir y Cyngor ym Maenywern. Penderfynwyd argymhell i'r gwaith yma gael ei wneud; nid yw wedi cael ei brisio. Derbyniwyd yr argymhelliad a phenderfynwyd gofyn am brisiau i Atkin Groundworks Ltd, Trefn, Clifford Hughes a Criccieth Cleaning Ltd. ch.Wi Fi i'r neuaddau Llanystumdwy/Chwilog/Festri Capel Pencaenewydd. Yr argymhelliad oedd talu am y gwaith yma os yw pwyllgorau'r neuaddau/capel am ei gael. Derbyniwyd yr argymhelliad, y Clerc i gysylltu gyda'r pwyllgorau/swyddogion i ofyn a ydynt yn fodlon derbyn y cynnig ar gost y Cyngor?

d. Llwybr Pont Merchaid i Ffynnon Gybi. Roedd Cyngor Gwynedd am wneud y gwaith yma, mae heb ei wneud ac argymhelliad y Pwyllgor yw trefnu i'r gwaith gael ei wneud a thalu amdano. Penderfynwyd unwaith eto geisio trefnu cyfarfod safle gyda Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd ynghylch hyn a llwybr Garn Bentyrch i weld ydi'r Cyngor Sir am wneud y gwaith maent wedi ei addo.

dd. Tocio caled ar y llwybrau. Mae angen gwneud hyn o bryd i'w gilydd a'r argymhelliad ydi trefnu a thalu am wneud y gwaith. Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gael gair gyda'r Swyddog Llwybrau i weld os oes gan y Cyngor Sir unrhyw gynlluniau tebyg.

e. Bocsys Halen. Eto mae'r Cyngor yma wedi ymrwymo i dalu am lenwi rhain pan maent yn wag.

f. Ym mhentref Llanystumdwy gofyn am symud yr arosfan bws am Bwllheli i'r gilfan ac ystyried talu am loches bws. Penderfynwyd cysylltu gyda'r Cyngor Sir i drafod y posibiliadau.

ff. Argymhell tacluso a glanhau'r cerrig milltir yn y gymuned; bydd angen cymorth i wybod eu hunion leoliad. Penderfynwyd gadael am rwan, gwneud yn siwr o'u lleoliad a gofyn i wirfoddolwyr wneud y gwaith ond ddim yn enw'r Cyngor.

g. Argymhell ystyried cael arwyddion croeso i'r pentrefi ar y ffiniau, Chwilog yn enwedig. Penderfynwyd gadael hwn i'r Cynghorydd Aled Davies gael esbonio ymhellach.

h. Argymhell cael arwydd i ddynodi lleoliad cromlech Rhoslan. Penderfynwyd gofyn i Cadw.

Arian Cyfraniad Budd Cymunedol, fferm solar Tyddyn Gwyn, Llangybi.

Penderfynwyd argymhell rhannu'r arian rhwng mudiadau lleol, rhoi gwybod am yr arian yn Y Ffynnon ac ar safle we'r Cyngor, cael mantolen a chael gwybod beth fyddai'r mudiadau lleol yn wneud gyda'r arian.

O bosib byddai hyn yn rhyddhau mwy o arian i gael ei wario ar brosiectau yn y gymuned.

Trafodwyd yr egwyddor o sicrhau tegwch i'r gwahanol wardiau wrth rannu'r arian. Penderfynwyd derbyn yr argymhellion.

9. Gohebiaeth oddi wrth Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru ynghylch yr apêl cynllunio a adferwyd ar gyfer datblygiad preswyl arfaethedig ym Mhen y Ffridd, Bangor. Derbyniwyd y llythyr.

10. Comisiwn Ffiniau i Gymru; Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru, Cynigion Diwygiedig. Penderfynwyd derbyn.

11. Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2018/19, adran 13 sydd yn berthnasol i aelodau o gynghorau tref a chymuned; angen sylwadau erbyn Tachwedd 29ain. Doedd gan y Cynghorwyr ddim sylwadau.

Materion Ariannol

12. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Rhoddodd y Clerc adroddiad lawn ar lafar, bod y gwariant o fewn y gyllideb, nad oes perygl o or wario a'r Cyngor yn mynd i ddyled.

13. Anfonebau angen eu talu:

a. Criccieth Cleaning Ltd. am ail doriad llwybrau Ynysgain Bach, Tŷ Newydd ac Afonwen, £164.10c + TAW = £196.92c, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

b. Atkin Groundworks Ltd. am ail doriad llwybr Clawdd Llanw, Bont Fechan, £135- + TAW = £162-, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

c. Cyngor Gwynedd, Toiledau Cyhoeddus; cyfraniad i Gyngor Gwynedd yn unol â chytundeb darpariaeth toiledau cyhoeddus 2017/2018 Llanystumdwy, £2,000- taliad siec rhif 100967 . Penderfynwyd ei dalu.

ch. Criccieth Cleaning Ltd. am lanhau'n chwarterol y llochesi bws ar 11/10/17; £103- +TAW=£123.60c, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

14. Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref – Digwyddiadau Ymgynghori. Cytunodd y Cynghorwyr Trefor W Jones, Aled Lloyd Evans, William Ifor Hughes a'r Clerc i gynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfod yn yr Institiwt, Bryn Pafiliwn, Caernarfon bnawn Mawrth Tachwedd 28ain rhwng 2 a 4pm.

It is possible to get an English translation of any minute; contact the Clerk.

